Difficult Airway Society

# Cronfa Ddata Llwybr Anadlu Anodd a Phrosiect Cerdyn Rhybudd DAS

## Taflen wybodaeth i gleifion

### Cyflwyniad

Mae bron 3 miliwn o ddosau o anaesthetig cyffredinol yn cael eu rhoi i gleifion bob blwyddyn yn y DU. Pan fydd cleifion yn cael anaesthesia cyffredinol (i'w rhoi i gysgu) ar gyfer llawdriniaeth, bydd y meddyg anaesthetig yn gosod dyfais i mewn i'w llwybr anadlu er mwyn gwneud yn siŵr bod digon o ocsigen yn mynd i'r corff. Mae hwn yn gam hollbwysig a bydd diffyg ocsigen yn arwain at ganlyniadau enbyd, gan gynnwys niwed i'r ymennydd a marwolaeth.

Er bod y rhan fwyaf o'r llawdriniaethau hyn yn ddi-drafferth, gall argyfyngau sy'n bygwth bywyd ddigwydd wrth reoli llwybr anadlu claf a gall hwn arwain at niwed difrifol. Mae'n bosib rhagweld anhawster mewn llawer o achosion, ond gall problemau godi'n annisgwyl. Mae rhagor o fanylion ar ein gwefan. (http://www.das.uk.com/patient_education)

Os bydd anawsterau wrth reoli eich llwybr anadlu (Llwybr Anadlu Anodd) yn ystod eich anaesthetig, mae'n hanfodol bod yr wybodaeth hon ar gael yn ystod eich llawdriniaeth nesaf. Gallai hon achub eich bywyd. Bydd yr wybodaeth hon yn helpu eich anaesthetegydd i gynnal eich anaesthetig nesaf yn ddiogel.

### Beth yw diben y prosiect hwn?

Diben y prosiect hwn yw gwneud yn siŵr bod gwybodaeth hollbwysig am unrhyw anhawster gododd pan gawsoch chi anaesthetig ar gael yn rhwydd i'ch anaesthetegydd os byddwch chi'n cael anaesthetig eto. Gall ymarferydd meddygol cofrestredig yn y DU weld yr wybodaeth hon ar unrhyw adeg, gan ddefnyddio'r cod byddwch chi'n ei roi iddo.

### Sut ydw i'n elwa o hyn?

Yn rhan o'r prosiect hwn, byddwch chi'n cael '**Cerdyn Rhybudd ynglŷn â Llwybr Anadlu DAS**'. Bydd y cerdyn hwn, sy'n rhad ac am ddim, yn cynnwys gwybodaeth hanfodol am yr anhawster yn ystod eich anaesthetig a sut cafodd hwn ei reoli. Oherwydd maint y cerdyn, dim ond ychydig o wybodaeth gallwn ni ei rhoi arno. Byddwn ni felly'n creu cronfa ddata genedlaethol, lle gallwn ni gadw gwybodaeth fanwl am y digwyddiad hwn fel y bydd ar gael i feddygon 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Bydd hyn yn helpu i gynllunio eich anaesthetig yn ddiogel yn y dyfodol.

### Beth yw manteision y Cerdyn Rhybudd ynglŷn â Llwybr Anadlu?

Gallwch chi gario'r cerdyn hwn, sef cerdyn plastig (yr un maint â cherdyn credyd), a'i ddangos i'ch anaesthetegydd y tro nesaf i chi gael llawdriniaeth. Bydd hyn yn rhoi gwybod i'ch anaesthetegydd yn syth am eich anaesthetig blaenorol ac felly'n helpu i reoli eich anaesthetig y tro nesaf yn ddiogel.

## Beth ddylwn i ei wneud â'r cerdyn hwn?

Cadwch y cerdyn hwn yn ddiogel gan ei fod yn cynnwys eich gwybodaeth bersonol a'ch manylion meddygol. Gallwch chi fynd ag ef pan fyddwch chi'n mynd i'r ysbyty. Bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol, nid yn unig i anaesthetegydd ond hefyd i weithwyr meddygol proffesiynol eraill. Bydd y cerdyn yn ddefnyddiol pan fyddwch chi, er enghraifft:

- Yn cael llawdriniaeth
- Yn cael triniaeth feddygol sy'n cynnwys anaesthetig neu dawelydd e.e. endosgopi, triniaeth ddeintyddol ac ati
- Yn cael eich derbyn ar frys i ysbyty gydag anhawster anadlu, ar ôl trawma/damweiniau ac ati

## Sut bydd fy ngwybodaeth yn cael ei defnyddio?

Rydyn ni'n cymryd cyfrinachedd o ddifrif, a fyddwn ni ddim yn defnyddio eich manylion personol am unrhyw reswm, ac eithrio i anfon y cerdyn rhybudd atoch ac i gysylltu â chi ynglŷn â'r prosiect hwn. Prif ddiben yr wybodaeth yw rhoi anaesthetig yn ddiogel i chi y tro nesaf i chi gael llawdriniaeth neu driniaeth. Mae'n bosib y bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio hefyd at ddibenion ymchwil yn y dyfodol. Fodd bynnag, fyddwn ni ddim yn defnyddio unrhyw fanylion y gellid eu defnyddio i'ch adnabod at ddibenion ymchwil.

## Fydd y data'n cael ei ddefnyddio at unrhyw ddiben arall?

Mae'n bosib y bydd yr wybodaeth glinigol sy'n cael ei chadw yn y gronfa ddata'n cael ei defnyddio ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, er mwyn helpu i ddeall pam roedd rhoi anaesthetig i chi'n anodd. Bydd hyn yn helpu'r anaesthetegyddion i ddatblygu technegau i reoli llwybr anadlu cleifion yn fwy effeithiol ac mewn modd mwy diogel. Gallwch chi dynnu eich cydsyniad yn ôl unrhyw bryd yn y dyfodol os byddwch chi'n dymuno.

At ddibenion ymchwil, dim ond fersiwn hollol ddienw o'r data fydd yn cael ei defnyddio. Fydd dim o'ch gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio, ac eithrio eich oedran ar adeg y digwyddiad (nid eich dyddiad geni) a'ch rhywedd. Gallai'r mathau eraill o wybodaeth sy'n cael eu defnyddio at ddibenion ymchwil gynnwys:

- Manylion ynglŷn â'r anhawster wrth reoli eich llwybr anadlu
- Yr offer gafodd ei ddefnyddio i reoli eich llwybr anadlu
- Gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw gyflyrau corfforol gyfrannodd at yr anhawster, gan gynnwys siâp corff y claf.
- Enw unrhyw archwiliadau arbennig, fel sgan CT (nid y canfyddiadau), gafodd eu cynnal i helpu i reoli'r llwybr anadlu
- Natur y llawdriniaeth gafodd ei chynllunio

## Pa wybodaeth fydd ar gael ar y rhyngrwyd? Pwy sy'n gallu cael hyd iddi?

Bydd manylion meddygol eich anaesthetig a'r anawsterau gawsoch chi'n cael eu rhoi yn y gronfa ddata hon. **Fydd dim manylion personol ar gael ar-lein**. Bydd eich rhif GIG yn cael ei storio yn y gronfa ddata hon ar ffurf sydd wedi ei hamgryptio. Bydd cod mynediad unigryw gyda'r cerdyn, a

bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i gysylltu eich manylion â'r gronfa ddata ddienw hon. Dim ond meddygon o'r Deyrnas Unedig sydd wedi cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) fydd yn gweld eich manylion. Bydd angen eich caniatâd chi arnyn nhw hefyd (pan fyddwch chi'n rhoi'r cerdyn hwn iddyn nhw) er mwyn gweld eich cofnod. Mewn amgylchiadau eithriadol, e.e. pan fyddwch chi'n colli'r cerdyn neu'n methu â rhoi caniatâd oherwydd rhesymau meddygol, bydd y meddygon cofrestredig yn cael gweld eich manylion gan ddefnyddio eich rhif GIG.

Gallwch chi fod yn dawel eich meddwl y byddwn ni'n cymryd pob cam posib i gadw eich manylion yn ddiogel.

## Fydd fy manylion personol ar gael ar-lein?

Fydd dim o'ch manylion personol yn cael eu storio ar-lein. Bydd eich gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw'n ddiogel mewn cronfa ddata all-lein yn ein swyddfa. Bydd angen hon i argraffu a phostio Cerdyn Rhybudd ynglŷn â Llwybr Anadlu DAS atoch chi, a rhag ofn y bydd angen i ni gysylltu â chi ynglŷn â'r prosiect yn y dyfodol. Rydyn ni'n storio'r wybodaeth hon er mwyn i ni allu cadw golwg ar y gronfa ddata a rhoi cerdyn newydd i chi rhag ofn y byddwch chi'n ei golli'n ddamweiniol.

## Oes rhaid i mi dalu am y gwasanaeth?

Nac oes, DAS sy'n talu'r gost o gynnal y gwasanaethau hyn. Bydd y cerdyn yn cael ei anfon atoch chi'n rhad ac am ddim. Fodd bynnag, bydd rhaid talu ffi weinyddol er mwyn cael cerdyn newydd. Mae'r Gymdeithas yn cadw'r hawl i newid y drefn hon yn y dyfodol.

## Beth os bydda i'n colli'r cerdyn?

Os byddwch chi'n colli eich Cerdyn DAS yn ddamweiniol, gallwch chi roi gwybod i'n swyddfa. Byddwn ni'n rhoi cerdyn newydd i chi. Fydd eich hen gerdyn a'r cod mynediad gafodd ei argraffu arno ddim yn gweithio mwyach, felly bydd y cerdyn yn ddiwerth os bydd yn syrthio i'r dwylo anghywir. Bydd ein manylion cyswllt, er mwyn rhoi gwybod i ni fod eich cerdyn wedi mynd ar goll, ar ein gwefan o dan *Patient information*.

## Fydd modd i mi dynnu fy nghydsyniad yn ôl yn y dyfodol?

Bydd. Gallwch chi dynnu eich cydsyniad yn ôl **unrhyw bryd** drwy ysgrifennu at *The Difficult Airway Society* (mae ein cyfeiriad ar y dudalen manylion cyswllt ar ein gwefan), a bydd eich holl fanylion yn cael eu dileu oddi ar ein cronfa ddata. Mae modd cysylltu â Swyddog Diogelu Data DAS drwy'r ffurflen gyswllt os oes unrhyw gwestiynau neu bryderon gyda chi ynglŷn â rheoli data. Gallwch chi hefyd anfon e-bost atom ni gyda'ch manylion ar dad@das.uk.com, a byddwn ni'n dileu eich data o'n system ar unwaith.

## Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Mae'r holl wybodaeth ynglŷn â'r Cerdyn Rhybudd ynglŷn â Llwybr Anadlu a Chronfa Ddata'r Llwybrau Anadlu, gan gynnwys sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, i'w gweld ar ein gwefan o dan *Patient information*: www.das.uk.com/dad

Difficult Airway Society

# Ffurflen gydsyniad ar gyfer creu cofnod ar Gronfa Ddata Llwybrau Anadlu DAS

Atoder label y claf

**Rwyf wedi trafod prosiect y Cerdyn Rhybudd ynglŷn â Llwybr Anadlu a'r Gronfa Ddata Llwybrau Anadlu Genedlaethol â Mr/Mrs/Ms.................................................., a rhoddwyd taflen wybodaeth i gleifion i'r unigolyn uchod sy'n cynnwys holl fanylion perthnasol y prosiect.**

Enw'r clinigydd ................................................ Swydd a sefydliad ..................................................

Llofnod ..................................................................... Dyddiad .......................................................

O ystyried yr esboniad a roddwyd i mi a'r daflen wybodaeth i gleifion a ddarparwyd:

- **Rwyf yn cydsynio i rannu fy manylion personol a fy manylion clinigol â The Difficult Airway Society (DAS)-UK.**
- **Rwyf yn deall mai dim ond er mwyn rhoi 'Cerdyn Rhybudd ynglŷn â Llwybr Anadlu' i mi ac er mwyn cysylltu â mi mewn perthynas â phrosiect Cronfa Ddata a Cherdyn Rhybudd DAS y bydd fy manylion personol yn cael eu defnyddio.**
- **Rwyf yn deall ac yn rhoi cydsyniad i DAS amgryptio fy manylion clinigol, eu troi'n ddienw a'u storio'n ddiogel yn y Gronfa Ddata Llwybrau Anadlu Genedlaethol, a darparu'r manylion hynny i glinigwyr yn ddiogel drwy'r rhyngrwyd er mwyn helpu gyda'm gofal clinigol.**
- **Rwyf yn deall y byddaf yn gallu tynnu'r cydsyniad hwn yn ôl unrhyw bryd os byddaf yn dymuno gwneud hynny.**

**Opsiynol**

- **Rwyf yn deall y gellid defnyddio'r data a gaiff ei gasglu yn y prosiect hwn yn ddienw ar gyfer ymchwil i reoli llwybrau anadlu. Rwyf yn rhoi cydsyniad i chi ddefnyddio fy nata dienw at ddibenion ymchwil.**

☐ **Ydw** ☐ **Nac ydw**

**Llofnod y claf ................................................**

**Printiwch eich enw ............................................... Dyddiad ............................**